

## ❖ NADOLIG DRWY LYGAID... SWYDDOG Y CYFRIFIAD

Petawn i wedi siarad â chi flynyddoedd yn ôl fe fuaswn i wedi dweud yn ddigon ysgafn imi gael ychydig o drafferth tua Bethlehem unwaith. Wedi'r cwbl, rydych chi'n siŵr o gael un creadur od ymhob pentre. Ac mi ges i un yno. Roeddwn i'n un o glercod y Cyfrifiad, wedi fy newis i'r swydd am fy mod i'n medru Aramaeg. Rown i'n meddwl mod i'n ddigon diogel ynghanol deheuwr Jwdea. Iaith y gogledd sy'n fy nrysu i. Ond fe ges i ryw frawd o Nasareth yng Ngalilea wedi dod bob cam o'r Gogledd lawr i Fethlehem am ei fod, mynte fe, o dŷ a thylwyth Dafydd.

'Defnyddiwch eich synnwyr, gyfai!, myntwn i wrtho fe. 'Mae'n siŵr mai eich hen gyndeidiau chi oedd yn byw fan hyn, nid eich tad a'ch mam. Dim ond disgwyl i bobl fynd yn ôl i'w tre enedigol oedden ni.'

Os do fe, dyma fe'n dechrau pregethu wrtha i am bwysigrwydd gwreiddiau a pherthynas.

'Gwrandwch,' myntwn i wedyn wrtho fe, 'rwy i wedi colli adnabod hyd yn oed ar fy mrodyr, heb sôn am fy nhac a 'nghyndeidiau.'

'Eich colled chi ydi hynny, frawd,' meddai. Drwy gornel fy llygaid gwelwn y ciw a oedd yn disgwyl wrth y drws i gael eu cofrestru yn tyfu bob munud.

'Enw?' myntwn i yn fy llais ymherodrol.

'Joseff fab Jacob,' atebodd yntau gyda llond ei frest o falchder.

'Tir?' gofynnais.

'Dim o werth,' meddai, 'crefft yw fy nhir i.'

'Pa grefft?'

'Saer' oedd yr ateb, a dyna gafodd fynd i lawr yn y Cyfrifiad.

'Diolch,' myntwn i, gan weiddi 'Nesa!'

'Ara deg rwan, frawd,' meddai, 'dw i ddim wedi gorffen.'

'Ie?' gofynnais.

'Mae gen i fab,' meddai, 'a rwy am i'r mab fod yn y Cyfrifiad.'

Atebais ar ei ben: 'Dyw hwnnw ddim yn cyfri.'

'Be 'dach chi'n feddwl "ddim yn cyfri"?''

'Enw penteulu yn unig sy'n mynd mewn i'r Cyfrifiad,' meddwn i.

Ar hynny dyma fe'n dechrau taflu adnodau o'r Proffwydi ata i, fel yr un yn Eseia'r hen lyfrau, 'Dirmygedig oedd, ac ni wnaethom gyfrif ohono.'

'Peth peryglus yw peidio â chyfri yr un fydd yn y diwedd yn cyfri. Y mab biau yfory, frawd, a bydd yntau'n saer yn Nasareth ar fy ôl i. Felly mae'n rheitiach ichi gael ei enw fo na fy enw i.'

Ac er mwyn cael gwared arno a chael mynd ymlaen â 'ngwaith fe ofynnais i am enw'r mab.

'Iesu fab Joseff o Nasareth yng Ngalilea,' meddai.

Fe gymerais arnaf mod i'n cofnodi'r enw.

'Ychydig oriau yn ôl y'i ganed o, wyddoch chi.' Fe gymerais arnaf mod i'n cofnodi hynny hefyd.

Fe aeth y Joseff hwnnw ar ei ffordd yn llawen, a chydag ochenaid o ryddhad y trois innau wedyn at bobl haws eu gosod mewn rhestr. Mae yna ddeng mlynedd ar hugain a mwy ers hynny. Ond am ryw reswm roedd yr enw, 'Iesu fab Joseff o Nasareth', wedi bod yn canu yn fy nghof i ar hyd y blynyddoedd. Fe ddechreuais glywed pobl yn sôn amdano.

Y llynedd fe welais yr Iesu hwnnw yn cael ei ddirmygu yn Jerwsalem, ac yn cael ei lusgo i gyferiad Golgotha. Wrth iddo fynd heibio'r fan lle roeddwn i'n sefyll ar y stryd, roeddwn i'n siŵr iddo edrych i'm llygaid. Roedd fel petai'n gofyn imi, 'A ydw i'n cyfri yn dy fywyd di bellach?' Os na wnes i roi ei enw yn llyfr y Cyfrifiad y diwrnod hwnnw ym Methlehem, fe aeth i lyfr fy nghalon i ddydd Gwener y Groes yn Jerwsalem.

**John Gwilym Jones**